**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Llun, 11eg Ebrill, 2016 at 2.00 pm**

**PRESENT:** County Councillor S. Jones (Chairman)
County Councillor S. White (Vice Chairman)

County Councillors: D. Dovey, D. Evans, B. Hayward, J. Prosser, A. Wintle, V. Smith and R.J.W. Greenland

Also in attendance County Councillor(s):

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Kellie Beirne | Chief Officer, Enterprise |
| Sian Hayward | Digital and Technology Manager |
| Matt Lewis | Deputy Director Shared Resource Services |
| Hazel Ilett | Scrutiny Manager |
| Richard Williams | Democratic Services Officer |

**APOLOGIES:**

Councillors D. Edwards

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant gan Aelodau.

2. **Craffu'r Strategaeth Cynllun Busnes iCounty 2016/19**

**Cyd-destun:**

Derbyn y Strategaeth Cynllun Busnes iCounty ar gyfer 2016/19 ar gyfer craffu Aelodau, ynghyd ag adroddiad ar wasanaeth Digidol a Thechnolegol Cyngor Sir Fynwy ac fel y mae'n alinio gyda strategaethau iCounty, Pobl a Lleoedd Cyngor Sir Fynwy.

**Materion Allweddol:**

Mae technoleg yn gwneud camau breision, ac mae angen i wasanaethau digidol ddal i fyny â'r newidiadau er mwyn i'r Cyngor gefnogi cymunedau ac economïau cynaliadwy. Er mwyn gwneud yn siŵr bod Cyngor Sir Fynwy'n gwneud y gorau o ddigideiddio, datblygwyd y strategaeth iCounty yn Ebrill 2014 ac fe'i cytunwyd drwy brosesau cymeradwyo pwyllgor y Cyngor yng Ngorffennaf 2014.

Dyma ail flwyddyn ei weithredu, ac mae'r cynllun busnes wedi esblygu ac wedi'i goethi drwy ddysgu a phrofiad, ynghyd â chydweithredu gyda phartneriaid a sefydliadau ar draws y DU er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn gadarn ac yn gynaliadwy.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Llun, 11eg Ebrill, 2016 at 2.00 pm**

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi cyflawni rhai datblygiadau sylweddol ers cymeradwyo iCounty gyntaf, ac mae'r sylfeini wedi'u gosod ar gyfer seilwaith TGCh cynaliadwy, platfformau TGCh y Cyngor, trawsnewid digidol a darpariaeth gwasanaeth digidol.

**Craffu Aelodau:**

- Roedd digwyddiadau codio ar gyfer pobl ifanc yn cael eu rhedeg yn ysgolion Sir Fynwy ac yn llyfrgelloedd Sir Fynwy. Mae angen i Bobl Ifanc Sir Fynwy fod yn ddigidol alluog er mwyn sicrhau bod mwy o godwyr ar gael yn y dyfodol.

- Mae'r Sefydliad Alacrity wedi gosod 12 i 16 o raddedigion drwy'i gynllun gan ddarparu hyfforddiant iddynt gychwyn eu busnesau eu hunain. Roedd y Cyngor Sir yn gweithio mewn partneriaeth gydag Alacrity, a oedd hefyd yn gweithio gydag ysgolion Sir Fynwy.

- Roedd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) yn ymweld ag ysgolion gyda'r bwriad o ddatblygu TG a strategaethau digidol. Roedd yr Awdurdod hefyd yn gweithio'n glos gyda'r GCA ynghylch y mater hwn.

- Dywedodd y Prif Swyddog, Menter, fod codio cyfrifiadurol yn fater cenedlaethol a bod y Gyfarwyddiaeth Fenter yn gweithio gydag ysgolion.

- Roedd yr Awdurdod yn ymchwilio ffyrdd o sicrhau Wi-Fi i bob neuadd bentref a phob clwb ieuenctid yn Sir Fynwy drwy gyfrwng cronfa'r Cynllun Datblygu Gwledig (CDG).

- Dylid ychwanegu eitem i Flaenraglen Waith y Pwyllgor Dethol i dderbyn adroddiad maes o law ynghylch ffyrdd i weithio'n uniongyrchol gydag ysgolion ynglŷn â chodio cyfrifiadurol i fyfyrwyr, gan fod y Gyfarwyddiaeth ar hyn o bryd yn gorfod gweithio o gwmpas y cwricwlwm parthed y mater hwn.

- Roedd cwmpas i sgwrsio ymhellach gyda'r Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc ac ysgolion ynghylch yr angen i greu cyswllt mwy clos gyda'r ffordd yr addysgir Mathemateg, TG, a Pheirianneg. Ar hyn o bryd addysgir y rhain dan y pwnc a elwir STEM. Gellid cynnwys hyn yn yr adroddiad a gyflwynir i'r Pwyllgor Dethol maes o law ynghylch codio cyfrifiadurol a'r bylchau posib yn narpariaeth y pwnc hwn.

- Rheolir seilwaith y Cyngor yn effeithiol gan y Gwasanaeth Adnoddau Cyfrannol(GAC).

- Mae'r Awdurdod yn Aelod o Bad Lansio Gwe Dyffryn Hafren.

- Mae sawl piler i Strategaeth iCounty. Mae'n galluogi'r gymuned i gyrchu'r gwasanaeth a gweithio'n haws gyda'r Awdurdod. Y mwyaf y galluogwn staff y Cyngor Sir yn ddigidol fe fydd y gwasanaeth mae'r Sir yn ei ddarparu i'r cyhoedd yn gwella.

- Mae'r Hyb Cymunedol ar gael i'r cyhoedd gyrchu'r Awdurdod yn ddigidol. Gall iCounty helpu busnesau a'r gymuned.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o'r Pwyllgor lle'r awgrymwyd efallai nad yw'r iCounty yn ddigon ffocysedig a'i fod o bosib yn rhy ddrud, nodwyd bod gwasanaethau'r Cyngor yn cael eu cyfuno gydag awdurdodau eraill a oedd yn arbed tipyn o arian i'r Awdurdod. Ar hyn o bryd mae gan yr Awdurdod 80 o systemau. O ddefnyddio'r dechnoleg newydd sydd ar gael gellid cwtogi'r rhain i dri neu bedwar platfform TG ar wahân. Mae'r Awdurdod wedi buddsoddi yng nghymhwysiad Fy Ngwasanaethau Cyngor ar gost isel. Mae'r systemau newydd yn sythweledol sy'n golygu nad oes angen hyfforddiant ac mae hynny'n arbed arian i'r Awdurdod. Os oes cynhyrchion ar gael ar y farchnad sy'n addas i'r pwrpas, yna bydd yr Awdurdod yn eu defnyddio. Fodd bynnag, os nad oes cynnyrch ar gael yna fe'i hadeiladwn. Manteision hyn yw y gellir gwerthu'r cynhyrchion hyn i awdurdodau eraill.

- Gellid adrodd nôl i gyfarfod y Pwyllgor Dethol yn y dyfodol yr arbedion effeithlonrwydd a gynhyrchir.

- Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda'r GAC a Llywodraeth Cymru i greu arbedion effeithlonrwydd.

- Roedd GAC yn ceisio adeiladu seilwaith y gall yr Awdurdod adeiladu arno mewn modd cost effeithlon.

- Strategaeth Cyngor Sir Fynwy yw iCounty ond mae angen partneriaid technoleg i'w ddatblygu.

- Mae'r Awdurdod yn ceisio adeiladu perthnasau gyda diwydiant gyda'r bwriad o gel cwmnïau i fynd i mewn i ysgolion i siarad â myfyrwyr. Dros y blynyddoedd i ddod bydd datblygu'r cyswllt hwn yn hanfodol.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol ar adnoddau staff, nodwyd, er bod tîm yr Awdurdod yn fychan, dynodwyd meysydd sydd angen eu hatgyfnerthu ar sail prosiect. Ar hyn o bryd, mae'r tîm yn perfformio'n dda.

- Mae staff wedi gweithio gyda chodwyr i ddatblygu systemau priodol.

- Mae nifer o gyfleoedd ar gael o gwmpas y rhanbarth i weithio gyda diwydiannau technoleg. Byddai gweithio gyda diwydiannau o'r fath yn hwb anferth i'r economi leol.

- Roedd angen mapio a blaenoriaethu newidiadau posib dros y tair i bum mlynedd nesaf.

| **<u>Casgliad y Pwyllgor:</u>** |
|---|
| Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad a'r safbwyntiau a fynegwyd. |

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Llun, 11eg Ebrill, 2016 at 2.00 pm**

| |
|---|
| Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn adroddiad pellach ynghylch ffyrdd i weithio'n uniongyrchol gydag ysgolion parthed codio cyfrifiadurol ar gyfer myfyrwyr, gan fod y Gyfarwyddiaeth ar hyn o bryd yn gorfod gweithio o gwmpas y cwricwlwm. Hefyd, nodwyd bod lle i drafodaethau pellach gyda'r Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc ac ysgolion ynghylch yr angen i greu cyswllt mwy clos gyda'r ffordd y mae Mathemateg, TG, a Pheirianneg yn cael eu haddysgu. Addysgir y rhain ar hyn o bryd dan bwnc a elwir STEM. |

3. **Craffu'r Gwasanaeth Adnoddau ar y Cyd (I dilydd)**

**Cyd-destun:**

Derbyn diweddariad ar gynnydd y Gwasanaeth Adnoddau Cyfrannol (GAC) at ddibenion craffu.

**Materion Allweddol:**

Ers diweddariad diwethaf GAC mae'r GAC wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth dderbyn partneriaid newydd i mewn i'r sefydliad. Uchelgais GAC erioed fu ehangu'r ddarpariaeth gwasanaeth i bartneriaid eraill y Sector Cyhoeddus. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (CBSBG) wedi cwblhau ac wedi cytuno achos busnes drwy'i awdurdodaeth a'i brosesau pwyllgor ei hun, a'r holl bartneriaid presennol i wahodd CBSBG i ymuno â'r GAC.

Canolbwyntir Strategaeth GAC (2016 – 2020) ar atgyfnerthu galw partneriaid lluosog ac ymdrin â chyflenwi datrysiadau TGCh. Gellir graddio strategaeth GAC i gefnogi amcanion sector cyhoeddus Llywodraeth Cymru.

Mae'r GAC yn gweithredu gyda 5 nod strategol i:

1) Gyflenwi gwasanaethau TGCh effeithiol o uned gyfunol sengl.
2) Ddarparu sylfaen gadarn y gall sefydliadau partner weithredu arni er mwyn gwella cyflenwi gwasanaethau.
3) Sicrhau y ffocysir y buddsoddiad mewn TGCh ar gyflenwi blaenoriaethau corfforaethol sefydliadau partner.
4) Ddatblygu gweithlu galluog, proffesiynol a all gwrdd â'r heriau o fewn TGCh dros y blynyddoedd i ddod.
5) Ddarparu platfform cydweithredol ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus i rannu capasiti a gallu digidol drwy blatfformau cyfrannol.

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent angen i ddatblygu a gweithredu model cynaliadwy i wella gwasanaeth ar gyfer ei ddarpariaeth TGCh sy'n:

- Cefnogi amcanion Llywodraeth Cymru am gydweithredu.
- Mynd i'r afael â'r materion ariannol sy'n effeithio ar yr Awdurdod.
- Ymateb i anghenion cyflenwi cynyddol yr Awdurdod a materion a ddynodwyd yn flaenorol.
- Profi'r gwasanaeth yn y dyfodol.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Llun, 11eg Ebrill, 2016 at 2.00 pm**

Mae Bwrdd Cyhoeddus GAC wedi cytuno bod derbyn partner newydd yn unol â'i nodau strategol i dyfu'r busnes. Gydag ychwanegu partneriaid newydd mae'r GAC yn gallu cyflawni arbedion maint pellach a gwireddu arbedion drwy rannu'n gyfartal gostau strategol a chostau rheolwyr gwasanaeth.

Mae'r heriau a brofwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cynnig cyfle i'r GAC i amlygu'i allu, yn cael ei ategu gan ei weledigaeth strategol, i sylweddoli'i botensial am gydweithredu sector cyhoeddus yn unol â dyheadau Llywodraeth Cymru.

Bydd derbyn y cynnig hwn yn cynhyrchu refeniw ychwanegol o £163,665 i mewn i'r GAC i'w fuddsoddi mewn gwella gwasanaeth a fydd yn cynhyrchu arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y partneriaid sy'n bodoli eisoes.

Mae'r GAC nawr mewn trafodaethau gydag awdurdodau eraill yng Ngwent Fwyaf i ehangu'r cwmni ymhellach yn unol â'i amcanion ac yn unol â Strategaeth 2016/20 GAC.

__Craffu Aelodau:__

- Rhoddid sicrwydd y byddai cofnodion cyfarfod Bwrdd Cyhoeddus GAC ar gael i'r Pwyllgor Dethol ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

- Mae Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PCBESC) yn rhwydwaith Cymru gyfan sy'n cysylltu sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru i Rwydwaith Ardal Eang (RhAE) Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh). Mae hwn yn wasanaeth da iawn sy'n atal data awdurdodau lleol rhag cael eu dwyn.

- Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda'r GAC i sicrhau bod y cyfryngau priodol ar gael i ganiatáu i swyddogion y Cyngor Sir gyflawni'u dyletswyddau'n effeithlon. Er enghraifft, mae gan yr Awdurdod swyddogion a ddaeth yn bencampwyr digidol ac maent ar gael ar draws yr awdurdod i gefnogi cydweithwyr ac Aelodau gyda'u materion ym maes TG.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o'r Pwyllgor Dethol ynghylch y GAC yn dod dan nawdd Llywodraeth Cymru, nodwyd bod cyngor cyfreithiol yn cael ei geisio ynghylch y mater hwn. Croesewid diweddariad ar gynnydd maes o law.

__Casgliad y Pwyllgor:__

Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad ac ystyried briff gwylio drwy gyfrwng cofnodion Cyfarfod Bwrdd Cyhoeddus y GAC yn gysylltiedig â chynnydd yn cael ei wneud parthed y GAC.

Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a nodi'i gynnwys.

**The meeting ended at Time Not Specified**